

Cofnodion **Cyfarfod Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fercher, Medi 13eg yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Wednesday September 13<sup>th</sup> at Penbryn Memorial Hall.*

## **Yn Bresennol/Present**

Cynghorwyr/*Councillors* Delfryn Owens, Caerwyn Owen, Teifi Davies, Walwyn Jones, Gwyn James, Barri Davies.

### **1 Ymddiheuriadau/Apologies**

Cynghorwyr/*Councillors* Huw Davies, Gareth Evans, Jonathan Rees, Melva Phillips, William Anwyl.

### **2 Materion Personol/Personal Matters**

Mae dau o'r Cynghorwyr, sef Gwyn James a Jonathan Rees, wedi dod yn dad-cu unwaith eto. *Councillors Gwyn James and Jonathan Rees have become grandfathers recently.*

### **3 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 4/7/23**

Cofnodwyd bod angen cywiro dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor yn y cofnodion i Fedi 13eg. Cynigiwyd gan Caerwyn eu bod yn gywir a'i eilio gan Teifi.

*It was noted that the minuted date for the next meeting needed to be amended to September 13<sup>th</sup>. Caerwyn motioned the minutes correct and seconded by Teifi.*

### **4 Materion yn codi/Matters arising**

#### **i) Gwefan y Cyngor/Council Website**

Bwriad Graham Jones, Caerwedros, oedd mynychu'r cyfarfod hwn er mwyn trafod datblygu'r wefan. Yn anffodus, ni fedr ddod heno, ond fe fydd yn mynychu cyfarfod mis Hydref er mwyn datblygu'r gwaith hwn.

*It was Graham Jones' intention to attend this meeting in order to discuss future developments regarding the website. Unfortunately, he was unable to come tonight, however he will attend next month's meeting.*

#### **ii) Cyfrif Banc/Bank Account**

Y newyddion da yw fod y cyfrif banc bellach wedi'i agor gyda **Bank of Scotland**. Mae taliadau Praesept Cyngor Sir Ceredigion eisoes wedi'u talu mewn i'r cyfrif. Fodd bynnag, nid ydym wedi derbyn llyfr siec na llyfr talu mewn. Felly, ni allwn dalu'r siec arall sydd gennym mewn ar hyn o bryd na thalu ein dyledion i wahanol gyrff ac unigolion. Nododd y Clerc y byddai'n parhau i geisio cysylltu â'r Banc er mwyn cau'r pen am y mwdwl.

*The good news is that the prospective bank account with Bank of Scotland has finally been opened. Precept payments from Ceredigion County Council have already been paid into the account. However, since we haven't received a cheque book nor a paying in book, we are unable to pay the other outstanding cheque we hold into the account. We are also unable to pay any outstanding bills to various bodies and individuals. The Clerk indicated he would continue to resolve issue with the Bank.*

#### **iii) Diogelwch defnyddwyr yr A487/Safety of Users on A487**

Wedi darllen gohebiaeth yr Asiantaeth Priffyrdd, teimlad cyffredinol yr aelodau oedd fod yr ymateb yn anghyflawn ac annigonol. Ni chafwyd digon o fanylder yn y sylwadau a bod angen trafodaeth fanylach ar ddiogelwch ar y ffordd hon gan yr

awdurdodau. Awgrymodd Teifi fod angen trefnu cyfarfod gyda Swyddog o'r Adran Prifffyrdd gyda'r aelodau er mwyn cychwyn trafodaeth ehangach. Pe bai'n fwy hwylus, awgrymwyd y gellid cyfarfod gyda swyddogion yn ystod y dydd gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd yn unfrydol y dylid ymholi'n ymhellach wrth geisio trefnu cyfarfod.

*Having read the correspondence from the Trunk Road Agency, the general feeling was of disappointment, the response being inadequate and incomplete. As regards safety of users on this road, it lacked any detailed proposals, that highlights the need for a detailed discussion on the relevant safety issues. Teifi proposed the need for a meeting with Highways officials in order to kick start a wider discussion. One suggestion was that a meeting could be held during the daytime, with representatives from the Community Council. Unanimously agreed to make further enquiries as regards arranging a meeting with officials.*

- iv) Hyfforddiant ar gyfer defnyddio deffribilwyr/*Training for use of defibrulators*  
Cadarnhaodd Delfryn fod yr hyfforddiant ar gael, ond na fedrai roi'r sefyllfa gyflawn gerbron yr aelodau eto. Bydd angen ateb cwestiynau ymarferol ynghylch cost a lleoliad y cyrsiau hyn cyn medru cyflwyno'r wybodaeth gyflawn ynghylch y cyrsiau hyn.

*Delfryn confirmed that this kind of training was available, but he was unable to confirm any such provision as yet. A number of practical questions need to be resolved, first of all, regarding costs and location, before being able to provide details about these courses.*

## 5 Cyllid/Finance

- i) Fel y nodwyd eisoes uchod, mae cyfrif banc y Cyngor Cymuned bellach wedi'i agor. Mae taliad uniongyrchol, gwerth £15163.34, wedi'i drosglwyddo i'r cyfrif oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion. Fodd bynnag, oherwydd nad ydym wedi derbyn llyfr siec na llyfr talu mewn eto, ni fedrwn dalu'r siec arall yn ein meddiant, gwerth dros £10000, i'r cyfrif hwn. Mae gennym restr o ôl-daliadau yn ddyledus i gyrff ac unigolion, er yn anghyflawn, sy'n cyfateb yn fras i gyfanswm o oddeutu £16500. Bydd angen adolygu'r rhestr hon er mwyn gwirio taliadau yn y dyfodol. Pwynt arall a nodwyd oedd yr angen am gysylltu taliadau ag anfonebau penodol, unwaith eto er mwyn gwirio taliadau. Dylid gwahodd Carol i gyfarfod gyda'r cynghorwyr er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ad-dalu'r dyledion law yn llaw gyda'r anfonebau, pan dderbyniwn y llyfrau bancio uchod. Cynigiwyd gan Teifi a'i eilio gan Walwyn.

*As mentioned above, the Council's bank account has since been opened. A direct payment, to the value of £15163.34, has already been transferred to the account from Ceredigion County Council. However, due to the fact that we have yet to receive a cheque book nor a paying in book, we are unable to transfer the other cheque, to the value of more than £10000, into the account. We have a list of outstanding payments to bodies and individuals, though incomplete, which equates to approximately £16500. It will have to be reviewed in order to validate future payments. Another issue raised was the need to connect payments directly to specific invoices, once more to validate payments. Recommended that Carol be invited to attend meeting with council members, in order to assist with the validation work regarding invoices, when both banking books are received. Proposed by Teifi and seconded by Walwyn.*

## 6 Cynllunio/Planning

- i) A230612 Land on Bron y Glyn, Glynarthen. Erection of Dwelling

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

Mynegodd Gwyn James ddiddordeb ac ymadael â'r ystafell.

*Gwyn James disclosed personal interest and left the room.*

Anogodd yr aelodau'r Cyngor Sir i gymeradwyo'r cais hwn er budd y gymuned leol a chaniatáu i bobl leol fedru byw yn eu milltir sgwar.

*The members urged the County Council to approve the application citing the benefits for the local community and allowing local residents to live in their communities.*

## 7 Gohebiaeth/Correspondence

- i) Achub Bywyd Cymru/Saving Lives Wales(SALC)

Mudiad yw hwn sydd yn gwarantu bod pob diffribilwr yn y gymuned wedi'i gofrestru'n gywir. Ategodd Delfryn fod holl ddiffribilbwyr yr ardal hon wedi'u cofrestru'n briodol.

*SALC is a body which ensures that all defibrulators within the community are properly registered. Delfryn confirmed that both defibrulators within this area have been appropriately registered.*

- ii) Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol- Datganiad

Blynyddol/Independent Remuneration Panel for Wales-Annual Return.

Swyddogaeth y panel hwn yw sicrhau bod aelodau o unrhyw Gyngor sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth ariannol o unrhyw fath am eu dyletswyddau yn cofnodi'r ffaith honno. Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd yr un aelod wedi derbyn unrhyw gydabyddiaeth o gwbl. Ar sail hynny, dywedodd y Clerc y byddai'n gwneud ymholiadau i geisio cwblhau'r ffurflen a anfonwyd atom gan y Panel hwn.

*This Panel's role is to ensure that any member who has received financial recognition for any work related to the Council must register this payment. The Chairman confirmed that no members had received such payments. The Clerk, therefore, based on this fact stated that he would make further enquiries regarding completing the form sent to the Community Council by this Panel.*

## 8 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- i) Dywedodd Teifi fod Diwrnod Agored yn cael ei gynnal yng Nghastell Nadolig ar Fedi 16eg a bod croeso cynnes i bawb fynychu'r digwyddiad.

*Teifi extended a warm welcome to all members to attend the Open Day at Castell Nadolig to be held on September 16<sup>th</sup>.*

- ii) Cododd Delfryn yr angen am dorri'r borfa ar hyd y llwybr gyferbyn â'r Neuadd yn Sarnau. Cynigiwyd gan Caerwyn ein bod yn gofyn i Bois y Mowo gwblhau'r gwaith a'i eilio gan Barri.

*Delfryn raised the need to cut the grass along the footpath opposite Penbryn Memorial Hall. Proposed by Caerwyn that Bois y Mowo undertake the work and seconded by Barri.*

## 9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y Cyfarfod nesaf nos Fawrth Hydref 3ydd am 7.30 y.h.  
The next meeting will be held on Tuesday October 3<sup>rd</sup> at 7.30 p.m.